

Awgrymiadau da ar gyfer gwella eich effeithlonrwydd

Dŵr

Mae cost gwirioneddol cyflenwi dŵr a gwaredu carthion wedi codi 40 y cant ers 2002. Mae eich busnes yn talu ddwywaith am ddŵr – unwaith ar gyfer ei ddarparu ac eto ar gyfer ei waredu. Bydd lleihau faint o ddŵr mae eich busnes yn ei ddefnyddio yn arbed arian o ran costau cyflenwi a biliau gwaredu carthion a gallai eich helpu chi i arbed ar gostau ynni ar gyfer cynhesu neu ar gyfer cemegau i drin dŵr.

Gweler isod rai awgrymiadau syml y gallwch eu dilyn i'ch helpu chi i arbed dŵr.

- Mae llawer o ddŵr ac arian yn cael ei fflysio i ffwrdd. Petaech yn gwneud buddsoddiad cymharol fach mewn offer, fel argaeau seston, cyfyngwyr llif, awyryddion, a thapiau neu ddrylliau clicied ar gyfer pibelli dŵr, gallech chi wneud arbedion sylweddol.
- Oes gennych chi unrhyw ollyngiadau neu dapiau sy'n diferu? A yw eich tapiau'n troi i ffwrdd yn llawn? Gall tap sy'n diferu wastraffu mwy na 5,500 litr o ddŵr y flwyddyn.
- A yw eich ystafelloedd ymolchi yn defnyddio systemau fflysh ddeuol? Gall argaeau seston, cyfyngwyr llif neu dapiau taro leihau faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio.
- Bydd gosod tapiau sy'n cau eu hunain neu sydd â synwryddion is-goch yn lleihau faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio a gwella hylendid. Bydd cynnal a chadw tapiau'n rheolaidd yn sicrhau nad yw dyddodion sebon a chen yn achosi gollyngiadau na thapiau sownd. Gellid cynnal a chadw cawodydd hefyd i osgoi rhwystrau a pherfformiad is.
- Gallai gosod awyrydd, sy'n costio oddeutu £5, ar gawod gonfensiynol a ddefnyddir ddwywaith y dydd am bum munud, arbed oddeutu £30 y flwyddyn mewn costau dŵr a charthffosiaeth.
- Pan fyddwch yn prynu offer newydd, dewiswch gynhyrchion dŵr ac ynni effeithlon, a'u gosod nhw'n gywir. Mae llawer o'r cynhyrchion hyn yn arddangos 'Label dŵr' i'ch helpu chi i gymharu effeithlonrwydd dŵr cynhyrchion.
- A yw pwysedd y dŵr yn rhy uchel? Mae cyfradd llif o 5 i 6 litr y funud yn ddigonol i olchi dwylo. Mae awyryddion a chyfyngwyr llif yn atebion cost isel a all leihau'r defnydd o ddŵr hyd at 70 y cant.
- Os oes rhaid i dŵr poeth deithio trwy bibelli hir i gyrraedd y man lle caiff ei ddefnyddio, rhaid gwaredu llawer o ddŵr oer yn gyntaf. Efallai y gallech ddod o hyd i ffyrdd i gynhesu'r dŵr yn agosach at ble caiff ei ddefnyddio.
- Ewch i <https://wrapcymru.org.uk/cy>
- Defnyddiwch y peiriant golchi llestri pan mae'n llawn yn unig, a chofiwch lenwi'r tegell â faint o ddŵr sydd ei angen arnoch, yn hytrach na'i lenwi a chynhesu dŵr nad ydych ei angen.
- Gellir defnyddio casgenni dŵr, sy'n hawdd i'w gosod, i gasglu dŵr i ddyfrhau planhigion a golchi tu allan, a gall eich helpu chi i osgoi talu am ddŵr ansawdd yfed yn ddianghenraid.
- Gall gollyngiadau pibelli achosi difrod i'ch eiddo a gall y gwaith atgyweirio fod yn ddrud. I'ch helpu chi i ganfod unrhyw ollyngiadau a cholledion dŵr arall, darllenwch eich mesurydd dŵr yn y nos a pheth cyntaf yn y bore, er mwyn i chi gael gweld faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio y tu allan i oriau gwaith. Cofiwch wirio eich pibellau a chysylltu â'ch cyflenwr dŵr a all helpu i ddod o hyd i ollyngiadau.

